# CYNGOR CYMUNED LLANFAIR
# RHEOLAU ARIANNOL

## CYFFREDINOL

Mae'r rheolau ariannol yn rheoli rheolaeth ariannol y Cyngor a'r Cyngor yn unig all eu newid neu eu diwygio trwy benderfyniad. Mae'r Cyngor yn gyfrifol yn ôl y gyfraith am sicrhau bod ei rheolaeth ariannol yn ddigonol ac effeithiol a bod gan y Cyngor system gadarn o reolaeth ariannol sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei wasanaethau yn effeithiol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer rheolaeth risg ac atal a darganfod twyll a llygredd. Pwrpas y rheolau ariannol yw dangos sut mae'r Cyngor yn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

Penodwyd y Clerc yn Swyddog Ariannol Cyfrifol ar gyfer y Cyngor hwn a bydd y rheolau hyn yn berthnasol yn hynny o beth. Bydd y Clerc yn gweithredu o dan arweiniad polisi'r Cyngor, yn gweinyddu materion ariannol y Cyngor yn unol ag arferion priodol. Bydd y Clerc yn penderfynu ar ran y Cyngor ei gofnodion cyfrifon, a'i systemau rheolaeth gyfrifyddol. Bydd y Clerc yn gofalu y cedwir at y systemau rheolaeth gyfrifyddol ac y cedwir cofnodion cyfrifo'r Cyngor a'u bod yn cael eu cadw'n gyfredol yn unol ag arferion priodol.

Bydd y Clerc yn cynhyrchu gwybodaeth rheolaeth ariannol yn ôl gofyn y Cyngor.

O leiaf unwaith y flwyddyn cyn cymeradwyo'r adroddiad blynyddol, bydd y Cyngor yn cynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei system rheolaeth fewnol a fydd yn unol ag arferion priodol.

Yn y rheolau ariannol hyn, bydd cyfeiriadau at y Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio yn golygu'r Rheoliadau a gyhoeddwyd trwy adran 27 Deddf Comisiwn Archwilio 1998 ac sydd ar waith ar y pryd.

Yn y rheolau ariannol hyn bydd y term 'arferion priodol' yn cyfeirio at y canllawiau a gyhoeddwyd yn 'Governance and Accountability in local Councils in England and Wales – a Practitioners' Guide' a gyhoeddir ar y cyd gan NALC A SLCC ac sy'n cael ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd.

## AMCANGYFRIFON BLYNYDDOL

Bydd amcangyfrifon manwl o bob derbyniad a thaliad gan gynnwys y defnydd o arian wrth gefn a phob ffynhonnell ariannu ar gyfer y flwyddyn yn cael eu paratoi bob blwyddyn gan y Clerc ar ffurf cyllideb i'w thrafod gan y Cyngor.

Bydd y Cyngor yn adolygu'r gyllideb heb fod yn hwyrach na mis Ionawr bob blwyddyn a bydd yn pennu'r Praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Bydd y Clerc yn rhoi manylion y Praesept i'w awdurdod bilio a bydd yn rhoi copi o'r gyllideb a gymeradwywyd i bob aelod.

Y cyllidebau blynyddol fydd yn ffurfiol sylfaen rheolaeth ariannol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

## RHEOLAETH GYLLIDEBOL

Gellir gwario arian ar eitemau refeniw i fyny at y symiau a gynhwyswyd ar gyfer y dosbarth hwnnw o warian yn y gyllideb a gymeradwywyd.

Ni cheir gwario unrhyw arian fydd yn fwy na'r swm sydd yn y gyllideb refeniw ar gyfer y dosbarth hwnnw o wariant. Yn ystod y flwyddyn dan sylw a chyda chydsyniad y Cyngor ar ôl llawn ystyried y goblygiadau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, gellir symud symiau sydd ar gael a heb eu gwario i benawdau cyllideb eraill neu i gronfa wrth gefn penodedig yn ôl y galw.

Bydd y Clerc yn darparu'n rheolaidd i'r Cyngor ddatganiad o dderbyniadau a thaliadau hyd hynny o dan holl benawdau'r gyllideb, gan gymharu union wariant hyd at y dyddiad dan sylw gyda'r hyn a fwriadwyd yn y gyllideb. Caiff y datganiadau hyn eu paratoi o leiaf hyd at ddiwedd pob chwarter ariannol.

Gall y Clerc wario arian ar ran y Cyngor sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud unrhyw waith atgyweirio neu waith arall y mae cymaint o frys yn ei gylch fel bod rhaid ei wneud yn syth, boed darpariaeth gyllidebol ar ei gyfer ai peidio, i fyny at uchafswm o £500. Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i'r Cyngor am y camau a gymerwyd cyn gynted ag y bo modd wedi hynny.

Ni cheir cario arian heb ei wario yn y gyllideb refeniw ymlaen i'r flwyddyn ganlynol oni bai ei fod yn cael ei roi mewn cronfa wrth gefn benodedig trwy benderfyniad y Cyngor.

Ni ellir gwario unrhyw arian ar unrhyw brosiect cyfalaf ac ni ellir cytuno unrhyw gontract na derbyn unrhyw dendr ar gyfer gwariant cyfalaf oni bai fod y Cyngor yn fodlon fod yr arian angenrheidiol ar gael, neu y cafwyd y caniatâd benthyca angenrheidiol.
Caiff pob gwaith cyfalaf ei weinyddu yn unol â Rheolau Sefydlog a Rheolau Ariannol y Cyngor ar gyfer contractau.

## CYFRIFO AC ARCHWILIO

Bydd holl weithdrefnau cyfrifo a chofnodion ariannol y Cyngor yn cael eu pennu gan y Clerc yn unol â'r Rheolau Cyfrifo ac Archwilio.
Bydd y Clerc yn llenwi datganiadau ariannol blynyddol y Cyngor, gan gynnwys adroddiad blynyddol y Cyngor, cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol wedi diwedd y flwyddyn ariannol a bydd yn eu cyflwyno ac yn rhoi gwybod i'r Cyngor y gwnaed hynny.
Bydd y Clerc yn llenwi cyfrifon y Cyngor sy'n gynwysedig yn yr Adroddiad Blynyddol (fel y'i darperir gan yr Archwilydd a benodir o dro i dro gan y Comisiwn Archwilio) a bydd yn cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i'w gadarnhau a'i awdurdodi gan y Cyngor o fewn y cyfnodau amser a nodir yn y Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio.
Bydd y Clerc yn sicrhau bod system ddigonol ac effeithiol ar gyfer cynnal archwiliadau mewnol o waith cyfrifo, ariannol ac o fathau eraill y Cyngor yn unol ag arferion priodol. Bydd unrhyw un o swyddogion neu aelodau'r Cyngor, ar gais y Clerc neu'r Archwilydd Mewnol yn darparu unrhyw rai o'r dogfennau'r Cyngor y mae'r Clerc neu'r Archwilydd Mewnol yn credu sy'n angenrheidiol at ddibenion yr archwiliad mewnol a byddan yn rhoi i'r Clerc neu'r Archwilydd Mewnol unrhyw wybodaeth neu esboniad y mae'r Clerc neu'r Archwilydd Mewnol yn eu hystyried yn angenrheidiol i'r perwyl hwnnw.
Penodir yr Archwilydd Mewnol gan y Cyngor a bydd yn cyflawni'r gwaith y gofynna'r Cyngor amdano yn unol ag arferion priodol. Bydd yr Archwilydd Mewnol, a fydd yn gymwys ac yn annibynnol ar y Cyngor, yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig rheolaidd i'r Cyngor, neu'n bersonol, gydag o leiaf un adroddiad ysgrifenedig blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Er mwyn arddangos gwrthrychedd ac annibyniaeth, ni fydd gan yr Archwilydd Mewnol unrhyw fuddiannau croes ac ni fydd ganddo/ganddi unrhyw gysylltiad â gwaith penderfyniadau ariannol a rheolaeth y Cyngor.
Bydd y Clerc yn gwneud trefniadau ar gyfer y cyfle i archwilio cyfrifon, llyfrau a thalebau ac ar gyfer arddangos neu gyhoeddi unrhyw hysbysiadau a datganiadau cyfrifon sy'n ofynnol trwy Ddeddf Comisiwn Archwilio 1998 a'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio.
Bydd y Clerc, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, yn dwyn i sylw pob Cynghorydd unrhyw ohebiaeth neu adroddiadau gan yr Archwilydd Mewnol neu Allanol, oni bai fod yr ohebiaeth yn ymwneud â mater cwbl weinyddol yn unig.

## TREFNIADAU BANCIO A SIECIAU

Bydd trefniadau bancio'r Cyngor, gan gynnwys Mandad Banc, yn cael eu gwneud gan y Clerc a dylent gael eu cymeradwyo gan y Cyngor. Dylent gael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn effeithlon.
Bydd rhestr o daliadau angenrheidiol, a fydd yn rhan o Raglen cyfarfod, yn cael ei pharatoi gan y Clerc ac, ynghyd â'r anfonebau angenrheidiol, ar gyfer ei chyflwyno i'r Cyngor. Os yw'r rhestr yn dderbyniol caiff ei hawdurdodi trwy benderfyniad gan y Cyngor a chaiff ei llofnodi gan Gadeirydd y cyfarfod. Os yw'n fwy addas gellir dangos y manylion yng nghofnodion y cyfarfod.
Bydd sieciau yn tynnu o'r cyfrif banc yn unol â'r rhestr y cyfeirir ati ym mharagraff 5.2 neu yn unol â pharagraff 6.4, yn cael eu llofnodi gan ddau aelod o'r Cyngor ynghyd ar Clerc. Er mwyn nodi fod y manylion a ddangosir ar y siec neu archeb talu yn cyd-fynd â'r bonyn a'r anfoneb neu waith papur tebyg, bydd y llofnodyddion hefyd yn llofnodi eu llythrennau ar fonyn y siec.

## TALU CYFRIFON

Gwneir pob taliad trwy siec neu archeb arall yn tynnu ar fancwyr y Cyngor.
Bydd pob anfoneb am dâl yn cael ei archwilio, ei wirio a'i gadarnhau gan y Clerc. Bydd y Clerc yn bodloni ei hun y cafodd y gwaith, nwyddau neu wasanaethau y cyfeiria'r anfoneb atynt ei dderbyn, ei gyflawni, ei archwilio a'i gadarnhau.

Bydd y Clerc yn archwilio anfonebau o ran cywirdeb rhifyddol a bydd yn eu dadansoddi o dan y pennawd gwariant priodol. Bydd y Clerc yn gwneud pob ymdrech i dalu pob anfoneb a gyflwynwyd, ac sy'n dderbyniol, yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.
Os oes angen gwneud taliad er mwyn osgoi talu llog o dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, ac os yw'r dyddiad perthnasol cyn cyfarfod nesaf arferol y Cyngor, pan mae'r Clerc yn cadarnhau nad oes unrhyw anghydfod neu reswm arall i oedi taliad, gall y Clerc (er gwaethaf paragraff 6.3) gymryd yr holl gamau angenrheidiol i dalu anfonebau o'r fath ar yr amod y cyflwynir rhestr o daliadau o'r fath i gyfarfod nesaf priodol y Cyngor.
Ni fydd y Cyngor yn cadw unrhyw fath o gronfa arian parod. Rhaid i'r holl arian parod a dderbynnir cael ei fancio fel y mae.

## TALU CYFLOGAU

Fel cyflogydd, bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i fodloni'n llawn y gofynion statudol a roddir ar bob cyflogydd gan ddeddfwriaeth PAYE ac Yswiriant Gwladol. Caiff cyflogau eu talu yn unol â chofnodion cyflogres a rheolau PAYE ac Yswiriant Gwladol sydd ar waith ar y pryd, a'r cyflogau a gytunwyd gan y Cyngor.
Gellir talu cyflogau a thalu didyniadau allan o gyflogau ar gyfer treth, yswiriant gwladol a chyfraniadau pensiwn yn unol â chofnodion cyflogres ac ar y dyddiadau priodol a nodir mewn contractau cyflogaeth, ar yr amod fod pob taliad yn cael ei adrodd i ac yn cael ei gadarnhau gan gyfarfod nesaf y Cyngor.

## BENTHYCIADAU A BUDDSODDIADAU

Caiff pob benthyciad a buddsoddi eu trafod yn enw'r Cyngor a byddant am gyfnod penodol yn unol â pholisi'r Cyngor.
Bydd unrhyw arian a fuddsoddir o dan reolaeth y Cyngor yn cael ei wneud yn enw'r Cyngor.
Gwneir pob benthyciad yn enw'r Cyngor, ar ôl cael unrhyw ganiatâd benthyca angenrheidiol. Caiff unrhyw gais am ganiatâd benthyciad ei gadarnhau gan y Cyngor o ran ei delerau a'i bwrpas. Bydd telerau ac amodau benthyciadau yn cael eu hadolygu o leiaf yn flynyddol.
Bydd pob tystysgrif a dogfennau eraill yn y cyswllt hwn yn cael eu cadw gan y Clerc.

## INCWM

Cyfrifoldeb y Clerc fydd casglu a goruchwylio'r holl symiau sy'n daladwy i'r Cyngor.
Bydd manylion pob taliad a wneir ar gyfer gwaith a wnaed, gwasanaethau a ddarparwyd neu nwyddau a gyflenwyd yn cael eu cytuno'n flynyddol gan y Cyngor, caiff y Clerc wybod amdanynt ac y bydd yn gyfrifol am gasglu pob cyfrif sy'n daladwy i'r Cyngor.
Bydd y Cyngor yn adolygu pob ffi a thaliad bob blwyddyn, yn dilyn adroddiad y Clerc.
Bydd gwybodaeth am unrhyw symiau a bernir na ellir eu hadennill ac unrhyw ddyledion drwg yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor a byddant yn cael eu dileu yn ystod y flwyddyn
Bydd pob swm a dderbynnir ar ran y Cyngor yn cael eu bancio fel y maent. Ym mhob sefyllfa, caiff pob taliad eu cyflwyno i fancwyr y Cyngor ar yr amlder sy'n angenrheidiol ym marn y Clerc.
Bydd tarddiad pob derbynneb yn cael ei nodi ar y slip talu i mewn.
Ni chaiff sieciau personol eu talu allan o arian sy'n cael ei dalu ar ran y Cyngor.
Bydd y Clerc yn llenwi unrhyw Adroddiad TAW angenrheidiol yn brydlon. Gwneir unrhyw gais am ad-daliad dyladwy yn unol â Deddf TAW 1994 adran 33 o leiaf yn flynyddol i gyd-ddigwydd â diwedd y flwyddyn ariannol.

## ARCHEBION AM WAITH, NWYDDAU A GWASANAETHAU

Danfonir archeb neu lythyr swyddogol ar gyfer pob gwaith, nwyddau a gwasanaethau oni bai fod contract ffurfiol yn cael ei baratoi neu pe bai archeb swyddogol yn anaddas. Cedwir copïau o archebion.
Caiff lyfrau archebion eu rheoli gan y Clerc.
Mae pob aelod a swyddog yn gyfrifol am gael gwerth am arian ar bob achlysur. Bydd swyddog sy'n gwneud archeb swyddogol yn gofalu i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ac ymarferol y ceir y telerau gorau posib ar gyfer pob trafodion, fel arfer trwy gael tri dyfynbris neu amcan bris neu ragor oddi wrth gyflenwyr, yn amodol ar unrhyw ddarpariaethau de minimis.

Bydd y Clerc yn cadarnhau natur gyfreithlon unrhyw ddarpar bryniant cyn gwneud unrhyw archeb, ac ar gyfer pryniannau neu daliadau newydd neu afreolaidd, bydd y Clerc yn gofalu yr adroddir yr awdurdod statudol i'r cyfarfod ble caiff yr archeb ei gadarnhau fel y gall y Cofnodion gofnodi'r awdurdod a ddefnyddir.

## CONTRACTAU

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer contractau fel â chanlyn:
Bydd pob contract yn cydymffurfio â'r Rheolau Ariannol hyn, ac ni wneir unrhyw eithriadau heblaw am mewn argyfwng ar yr amod na fydd y rheolau hyn yn berthnasol i gontractau sy'n ymwneud ag eitemau isod:
ar gyfer gwasanaethau arbenigol o'r math a ddarperir gan gyfreithwyr, cyfrifwyr, syrfewyr ac ymgynghorwyr cynllunio;
ar gyfer gwaith a wneir neu ddeunyddiau a gyflenwir sy'n cynnwys atgyweiriadau i neu rannau ar gyfer peiriannau neu offer;
ar gyfer gwaith a wneir neu ddeunyddiau a gyflenwir sy'n ffurfio estyniad i gontract a wnaed yn barod gan y Cyngor;
ar gyfer nwyddau neu ddeunyddiau y bwriedir eu prynu sy'n nwyddau perchnogol a/neu os cânt eu gwerthu am bris gosod yn unig.
Pan fwriedir gwneud contract mwy na £5000 ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau neu ar gyfer cyflawni gwaith neu wasanaethau arbenigol bydd y Clerc yn gwahodd tendrau oddi wrth o leiaf dri Contractwyr.
Pan wneir ceisiadau i ollwng Rheolau Ariannol ar gyfer contractau er mwyn sicrhau y gellir cytuno pris heb gystadleuaeth, bydd y rheswm yn cael ei gynnwys mewn argymhelliad i'r Cyngor.
Bydd unrhyw wahoddiad o'r fath i dendro yn nodi natur cyffredinol y contract arfaethedig a bydd y Clerc yn trefnu'r cymorth technegol angenrheidiol i baratoi manyleb mewn achosion perthnasol. Bydd y gwahoddiad yn nodi hefyd fod rhai cyfeirio tendrau at y Clerc trwy'r post arferol. Bydd pob cwmni tendro yn cael amlen wedi marcio'n briodol ar gyfer rhoi'r tendr ynddi wedi'i selio, a bydd yn parhau dan sêl tan y dyddiad a gytunwyd ar gyfer agor tendrau ar gyfer y contract hwnnw.
Bydd pob tendr wedi'u selio yn cael eu hagor ar yr un pryd ar y dyddiad a nodwyd gan y Clerc ym mhresenoldeb o leiaf un aelod o'r Cyngor.
Os derbynnir llai na thri thendr ar gyfer contractau dros £5000 neu os yw pob tendr yn cynnig yr un pris gall y Cyngor wneud pa drefniant bynnag y mae'n credu sy'n addas ar gyfer caffael y nwyddau neu ddeunyddiau neu gyflawni'r gwaith.
Pan fwriedir gwneud contract gwerth llai na £5000 ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau neu gyflawni gwaith neu wasanaethau arbenigol bydd y Clerc yn trefnu cael 3 dyfynbris.
Ni fydd rhaid i'r Cyngor dderbyn y tendr, dyfynbris neu amcan bris isaf.

## ASEDAU, ADEILADAU AC YSTADAU

Bydd y Clerc yn gwneud trefniadau addas ar gyfer storio holl weithredoedd eiddo pob eiddo sydd ym mherchnogaeth y Cyngor. Bydd y Clerc yn gofalu y cedwir cofnod o bob eiddo ym mherchnogaeth y Cyngor, yn cofnodi lleoliad, maint, cynllun, cyfeirnod, manylion prynu, natur y budd, tenantiaethau a ganiatawyd, rhenti sy'n daladwy a'u pwrpas yn unol â Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio.
Ni chaiff unrhyw eiddo ei werthu, ei lesio na'i waredu mewn unrhyw ffordd arall heb awdurdod y Cyngor, ynghyd ag unrhyw gydsyniadau eraill sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, ac eithrio pan nad yw gwerth unrhyw un darn o eiddo diriaethol, symudadwy yn fwy na £50.
Bydd y Clerc yn gofalu y cedwir Cofrestr Asedau addas a manwl gywir yn gyfredol. Bydd y ffaith fod yr asedau diriaethol a ddangosir yn y Gofrestr yn dal i fodoli yn cael ei gadarnhau o leiaf yn flynyddol.

## YSWIRIANT

Yn dilyn yr asesiad risg blynyddol (yn unol â Rheol Ariannol 17), bydd y Clerc yn trefnu pob yswiriant ac yn trafod pob hawliad gydag yswirwyr y Cyngor.
Bydd y Clerc yn cadw cofnod o bob yswiriant a drefnwyd gan y Cyngor ac o'r eiddo a'r risgiau a warantir ganddo a bydd yn ei adolygu'n flynyddol.

Bydd y Clerc yn cael gwybod am unrhyw golled rhwymedigaeth neu ddifrod neu am unrhyw ddigwyddiad sy'n debyg o arwain at hawliad, a bydd yn rhoi gwybod i'r Cyngor amdanynt yn y cyfarfod nesaf.
Cynhwysir holl weithwyr priodol y Cyngor mewn yswiriant gwarantu ffyddlondeb addas fydd yn gwarantu'r perygl uchaf o risg fel y penderfynir hynny gan y Cyngor.

## RHEOLAETH RISG

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am wneud trefniadau ar gyfer rheoli risg. Bydd y Clerc yn paratoi, i'w cymeradwyo gan y Cyngor, ddatganiadau rheolaeth risg ar gyfer holl weithgarwch y Cyngor. Caiff datganiadau polisi risg a'r trefniadau rheolaeth risg sy'n deillio ohonynt eu hadolygu o leiaf yn flynyddol gan y Cyngor.
Wrth ystyried unrhyw weithgaredd newydd, bydd y Clerc yn paratoi drafft asesiad risg gan gynnwys cynigion rheoli risg i'w hystyried a'u mabwysiadu gan y Cyngor.

## ADOLYGU RHEOLAU ARIANNOL

Dyletswydd y Cyngor yw adolygu Rheolau Ariannol y Cyngor o bryd i'w gilydd. Bydd y Clerc yn gwneud trefniadau i fonitro newidiadau deddfwriaethol neu mewn arferion priodol a bydd yn rhoi gwybod i'r Cyngor am unrhyw angen dilynol i wneud newid i'r Rheolau Ariannol hyn.

## CYFRANIADAU

Bydd y Cyngor Cymuned yn ystyried ceisiadu am gyfraniad gan fudiadau sydd yn gweithredu yn nhalgylch y Cyngor Cymuned yn flynyddol yn eu cyfarfod gweithredol ym mis Mawrth a mis Hydref.